Prifysgol Abertawe
Swansea University

Cyfle Datblygu i Staff (heb dâl)

Coleg/Ysgol:	Gwasanaethau Myfyrwyr
Teitl y Cyfle:	Cysylltydd
Adran/Pwnc:	Gwasanaethau Cefnogi Myfyrwyr Cynhwysol
Oriau Gwaith:	Hyblyg ac yn ôl yr angen (does dim rhaid iddo fod yn ddiwrnod/amser sefydlog)
Hyd:	Ymrwymo i isafswm o 2 dymor
Lleoliad:	Campws Singleton/y Bae, gan ddibynnu ar eich lle gweithio arferol

Cyflwyniad	I fodloni targedau allweddol Prosiect CYSWLLT/CONNECT y gellir eu cyflawni, mae Prifysgol Abertawe yn ceisio recriwtio tîm o staff ymroddedig sy'n fodlon derbyn hyfforddiant i gefnogi myfyrwyr sy'n ynysig ac sy'n colli diddordeb ac mewn perygl o hunan-barch isel, lles gwael a gadael y Brifysgol.
Gwybodaeth gefndirol	Mae HEFCW wedi dyrannu cylllid i Brifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ar gyfer y rhaglen CYSWLLT/CONNECT. Nod CYSWLLT yw hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ac iach i alluogi myfyrwyr i ffynnu tra byddant yn y Brifysgol. Nod y rhaglen yw cyflwyno ymyriadau lles myfyrwyr sy'n gyfannol ac ym mhob rhan o'r sefydliad, gan ddefnyddio rhwydwaith o gysylltwyr.
Prif Nod	1. Lleihau unigrwydd cymdeithasol, hunan-barch isel, iechyd meddwl gwael a nifer y myfyrwyr sy'n gadael y Brifysgol. 2. Hyrwyddo ymddygiad a dewisiadau cadarnhaol sy'n cefnogi iechyd meddwl da ymhlith myfyrwyr. 3. Cefnogi myfyrwyr i gael mynediad at y Brifysgol, gwasanaethau cefnogi cymunedol a gweithgareddau cymdeithasol.
Prif Dasgau	1. Ymgysylltu â myfyrwyr sydd wedi'u hynysu neu sy'n colli didddordeb o bosib a chynnig cymorth iddynt. 2. Annog myfyrwyr i gysylltu â'i gilydd a chefnogi ei gilydd. 3. Rhannu negeseuon, ymgyrchoedd a gwybodaeth gadarnhaol am ddigwyddiadau ar y campws. Er enghraifft, dosbarthu taflenni neu rannu gwybodaeth ar ddechrau/diwedd darlith neu seminar. 4. Cyfeirio myfyrwyr at weithgareddau neu wasanaethau cymorth yn ôl yr angen. 5. Cael gwybod am gymorth lles ychwanegol y byddai myfyrwyr yn ei groesawu. 6. Mynychu sesiynau goruchwylio grŵp i adfyfyrio ar eich rôl. 7. Adrodd yn ôl wrth Gydlynydd y Modiwl yn rheolaidd i helpu gyda gwaith monitro a gwerthuso'r prosiect. 8. Gweithredu fel cyswllt cymorth i Gysylltwyr myfyrwyr.
Manyleb Person	• Byddwch chi eisoes yn gweithio mewn amgylchedd sy'n ymdrin â myfyrwyr yn rheolaidd neu'n treulio amser sylweddol yn ystod eich diwrnod gwaith gyda myfyrwyr ar y campws. • Bod yn gyfeillgar, yn hawdd mynd atoch a dod ymlaen yn dda gyda myfyrwyr • Bod yn dda wrth nodi myfyrwyr a allai fod yn ynysig neu'n unig a chynnig cymorth iddynt • Bod yn hapus i fynd at fyfyrwyr a chychwyn sgwrs am eu lles • Meddu ar ddealltwriaeth sylfaenol o les (rhoddir hyfforddiant llawn) • Bod yn fodlon hyrwyddo gweithdai, digwyddiadau, gweithgareddau, cymdeithasau, gwirfoddoli a chyfleoedd eraill ar draws y Brifysgol ac yn y gymuned • Parodrwydd i gofnodi gwybodaeth sylfaenol am y tasgau a wnaed • Cydnabod ffiniau personol a phroffesiynol, ffiniau'r prosiect a phryd i ofyn am gymorth ychwanegol • Lefel uchel o gymhelliad a'r gallu i weithio'n annibynnol

Hyfforddiant Gorfodol	• Dau ddiwrnod o Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl i Bobl Ifanc • Hyfforddiant Ffiniau • Rhaid cwblhau'r hyfforddiant cyn dechrau yn y rôl